



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2020/2021




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

This document is also available in English

CYNNWYS

Rhagair: Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru	3
Cyflwyniad: Yr Athro Kieran Walshe, Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru	4
O dan y chwyddwydr: sut y gwnaeth y pandemig daflu goleuni ar ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru	5
Ein canolfannau ymchwil mewn niferoedd / Ein cynlluniau ariannu	7
Cymorth a Chyflenwi 2020/21	8
Ein grantiau a dyfarniadau ymchwil	9
Ein canolfannau ymchwil a'u heffaith	12
Cynnwys y cyhoedd: Pam ein bod ni'n annog mwy o bobl i ddarganfod eu rôl mewn ymchwil	13
Edrych ymlaen: cynlluniau ar gyfer dyfodol ymchwil iechyd a gofal	14

 +44 (0) 2920 230 457

 healthandcareresearch@wales.nhs.uk

 www.ymchwiliiechydagofalcymru.org

 @YmchwilCymru

RHAGAIR

Rydw i mor falch o'n timau ymchwil, ein cleifion, ein defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau'r cyhoedd am eu hymdrechion anhygoel mewn ymateb i heriau'r pandemig ac mae'n bleser gennyf gydnabod eu cyfraniad yn adroddiad blynyddol 2020/21 Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Cyda'i gilydd, maent wedi helpu i nodi triniaethau i wella deilliannau'r cleifion mwyaf sâl a chyfrannu at ddarganfod y brechlynnau effeithiol sy'n achub bywydau heddiw, a hoffwn ddweud 'Diolch o galon' i bob un ohonynt.

Mae Cymru wedi chwarae rôl allweddol yn yr ymdrech ymchwil ledled y DU ar gyflymder a graddfa na welwyd mo'u bath o'r blaen. Mae'n bwysig cydnabod pa mor bell rydym wedi dod, ac ni fyddai hyn wedi digwydd heb ymroddiad a sgiliau ein cymuned ymchwil, a'r bobl sydd wedi camu ymlaen i gyfrannu at yr astudiaethau a gwneud yr ymchwil yn bosibl.

Trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n hybu ac yn cefnogi ymchwil iechyd a gofal i sicrhau ei bod o'r ansawdd gwyddonol rhyngwladol uchaf, ei bod yn berthnasol i anghenion a heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a'i bod yn gwella bywydau cleifion, pobl a chymunedau.

Felly bydd defnyddio'r sylfaen dystiolaeth ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol mor hanfodol ag erioed wrth i Lywodraeth Cymru nawr gyflawni ei hymrwymadau uchelgeisiol sydd wedi'u hamlinellu yn ei Rhaglen Lywodraethu 5-mllynedd.

Rydw i'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n cymuned ymchwil i adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu trwy'r pandemig, gan ddod â buddion ymchwil i bawb.

Eluned Morgan



Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
Llywodraeth Cymru

CYFLWYNIAD

Dysgu ac edrych ymlaen

Bob blwyddyn, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn gyfle i adolygu'r hyn rydym wedi'i gyflawni ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac i edrych ymlaen i gyfleoedd a datblygiadau yn y dyfodol. Ond mae'r flwyddyn ddiweddar yma wedi bod yn eithriadol, yn ddigynsail ac yn hynod bwysig. Dyma oedd blwyddyn y pandemig COVID-19 byd-eang, pan roedd ymchwil iechyd a gofal ledled y DU a'r byd yn ganolog i fywydau pob un ohonom – yn dod o hyd i driniaethau, yn datblygu brechlynnau, yn defnyddio data i lywio polisi ac arfer ac, yn ddiamau, yn achub llawer, llawer o fywydau.

Yn yr adroddiad hwn, rwy'n falch iawn o roi lle amlwg i rai o ymdrechion cymuned ymchwil Cymru, gan gynnwys partneriaethau fu a wnelo â nifer o dreialon brechlynnau ac astudiaethau ymchwil yn edrych am driniaethau newydd. [Buddsoddodd Llywodraeth Cymru £3m mewn sefydlu Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru](#) sydd wedi galluogi cael gafael mewn tystiolaeth a darganfyddiadau ymchwil ryngwladol allweddol yn gyflym i ddarparu sail ar gyfer penderfyniadau Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. Rydym nawr yn mynd i'r afael ag agenda ymchwil y dyfodol, gan gynnwys COVID hir, adfer gwasanaethau iechyd a gofal a dysgu o lawer o'r arloesi a ddatblygwyd yn ystod y pandemig.

Ymhlith yr holl heriau hyn, mae'r ymdrech ymchwil ehangach wedi parhau yn gyflym. Er enghraifft, arweiniodd galwadau ariannu fu'n rhedeg rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 at Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu 29 o ddyfarniadau newydd a oedd yn werth £6.83m gyda'i gilydd, ac mae'n bleser gennym weld Banc Canser Cymru, sy'n cael ei ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn cael ei enwi yn Fiobanc y Flwyddyn y DU 2020 gan Ganolfan Cyfeiriadur a Chydgysylltu Meinwe sefydliad Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol y DU (UKCRC).

Hefyd, cafodd yr Athro David Ford, cyd-gyfarwyddwr Banc Data Diogel ar gyfer Cysylltiadau Gwybodaeth Ddienw (SAIL), sy'n cael ei ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ei gydnabod fel un o'r bobl fwyaf dylanwadol ym maes data yn argraffiad 2021 o'r [DataIQ 100](#).

Bu cynnydd sylweddol wrth roi [strategaeth Darganfod Eich Rôl Llywodraeth Cymru](#) ar waith, â'r nod o annog mwy o bobl o ledled Cymru i gael eu cynnwys mewn ymchwil, yn amrywio o'i dylunio i'w chyflenwi. Mae ein cynllun gweithredu, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn golygu bod camau'n cael eu cymryd i chwalu rhwystrau rhag cynnwys y cyhoedd ac yn edrych ar sut i gyrraedd cymunedau mwy amrywiol i sicrhau bod ymchwil yn adlewyrchu anghenion poblogaeth ehangach Cymru'n fwy agos.

Ac mae'n bleser gennyf adrodd bod bron 500 o bobl wedi mynychu ein cynhadledd gyntaf erioed ar-lein ar 7 Hydref 2020 – sy'n golygu mai hon oedd ein cynhadledd fwyaf a gorau hyd yma – rhywbeth rydym yn bwriadu ei ailadrodd yn 2021 ac ar gyfer digwyddiadau eraill.

Mae yna gryn dipyn i'w ddysgu o'r 12 mis diwethaf wrth i ni edrych i'r dyfodol – a byddwch yn gweld ein meddylfryd ynglŷn â datblygiadau yn y dyfodol ar ddiwedd yr adroddiad blynyddol hwn yn ein hadran ar edrych ymlaen.

Kieran Walshe



Yr Athro Kieran Walshe
Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

O DAN Y CHWYDDWYDR

Sut y gwnaeth y pandemig daflu goleuni ar ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru

Cydweithio ac ymrwymo: sut y bu cymuned ymchwil Cymru'n chwarae rhan hanfodol mewn mynd i'r afael â COVID-19

Ar 28 Chwefror 2020, cadarnhawyd bod y person cyntaf yng Nghymru wedi cael prawf positif o feirws o'r enw coronafeirws. Rhyw ychydig o wythnosau yn ddiweddarach, agorodd astudiaeth iechyd cyhoeddus frys gyntaf COVID-19 yng Nghymru, gan alluogi'r gymuned wyddonol i ddeall mwy am ffordd yr haint marwol hwn o ledaenu. Y diwrnod wedyn ar 11 Mawrth, cadarnhaodd Sefydliad Iechyd y Byd ein bod mewn pandemig.

Ers hynny, mae cymuned ymchwil Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu amryw o frechlynnau, gan hefyd edrych ar driniaethau, diagnosis a phroffion newydd. Mae'r ymdrech ymchwil hon wedi dod â'r GIG, y byd academiaidd, staff ymchwil, gwirfoddolwyr yn ogystal â chleifion a'u teuluoedd at ei gilydd.

Mae Cymru wedi'i chynnwys mewn 38 o astudiaethau ymchwil iechyd cyhoeddus brys, a nodwyd trwy banel blaenoriaethu'r DU, gan gynnwys treialon brechlynnau sydd, fel rydym nawr yn gwybod, wedi darparu llwybr hanfodol allan o'r pandemig.

[Mae bron 50,000 o bobl yng Nghymru wedi'u recriwtio i 110 o astudiaethau ymchwil COVID-19 dan arweinyddiaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.](#)

Meddai Dr Nicola Williams, Cyfarwyddwr Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru: "Mae'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni yn ystod y 18 mis diwethaf yng Nghymru'n hynod. Mae'r GIG a'r byd academiaidd wedi dod at ei gilydd fel cymuned ac rydyn ni wedi gallu rhoi Cymru ar y map o ran ei gallu i fod yn ymatebol, i sefydlu astudiaethau'n gyflym iawn ac yna cyflawni pethau go iawn, ac o ran recriwtio'n llwyddiannus i'r astudiaethau hynny.

"Hefyd, fydden ni ddim wedi cyrraedd lle rydyn ni heddiw heb ymdrechion rhagorol y staff cyflenwi, gwirfoddolwyr, teuluoedd a gofalwyr cleifion sydd oll wedi bod yn hollbwysig i'n hymdrechion ymchwil."

Yn ystod 2020 ac ymhell i mewn i 2021, mae ymchwil COVID-19 wedi gwneud gwahaniaeth anferthol i fywydau pob un ohonom. Yn enwedig cyfraniad Cymru at y treialon brechlynnau cenedlaethol. Gydag arweinyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn 2020, rydym wedi recriwtio gwirfoddolwyr ym [Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer brechlyn Rhydychen/AstraZeneca](#), ym [Mwrdd Iechyd Prifysgol](#)

[Betsi Cadwaladr ar gyfer brechlyn Novavax](#) ac yn [Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd ar gyfer brechlyn Janssen](#).

Yn fwy diweddar, cafwyd treialon ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe ar gyfer brechlyn Medicigo, yng nghanolfan brechu torfol y Bae, Caerdydd i ddeall effaith rhoi brechlyn blynyddol y ffliw ar yr un pryd â'r brechlyn COVID-19, ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer treial brechlyn atgyfnerthu – mae pob un o'r astudiaethau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar raglen brechu'r boblogaeth yn y DU ac yn fyd-eang.

Roedd Brian Begg, ymarferydd ymarfer adsefydlu cardiaidd sy'n 39 oed ac sy'n gweithio yn Ysbyty Ystrad Fawr yng Nghaerffili, yn un o gannoedd o gyfranogion a gofrestrodd i gymryd rhan yn nhrefnal brechlyn Rhydychen/AstraZeneca. Cafodd Brian, sy'n byw yng Nghasnewydd gyda'i bartner Ellie a thri o blant, ei wahoddiad cyntaf i gymryd rhan yn y treial ym mis Mai 2020. [Darllenwch ei sesiwn holi ac ateb yma am ei brofiad o gymryd rhan mewn treial brechlyn byd-eang.](#)

**mae ffigyrau yn gywir ym mis Medi 2021 pan aeth yr adroddiad hwn i'w gyhoeddi*



Brian Begg, un o lawer o wirfoddolwyr a gymerodd ran yn y treial ar gyfer brechlyn Rhydychen/AstraZeneca

Yn ogystal â'r treialon brechlynnau, mae Cymru hefyd wedi bod yn rhan o ymchwil allweddol i driniaethau, gan gynnwys treial [RECOVERY](#) sydd, hyd yma, wedi gweld mwy na 1,279 o gyfranogion o Gymru'n cael eu trin o fewn yr astudiaeth ar draws saith sefydliad GIG yng Nghymru. Mae'r astudiaeth yn helpu i nodi triniaethau ar gyfer pobl sydd yn yr ysbty ag achosion tybiedig neu wedi'u cadarnhau o COVID-19. Mae'r treial wedi dangos bod steroid cost-isel (dexamethasone) yn lleihau marwolaethau o hyd at draean o'r rheini â chymhlethdodau anadlol difrifol, ac y gallai cyffur ar gyfer arthritis, sef tocilizumab, achub 1 mewn 25 o bobl sy'n ddifrifol sâl â choronafeirws. Mae'r astudiaeth hefyd wedi bod yn werthfawr o ran dangos nad yw triniaethau eraill yn dangos unrhyw fudd clinigol (y gwrthfotig azithromycin, therapi plasma ymadfer, hydroxychloroquine).

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pob bwrdd iechyd sydd â darpariaeth gofal dwys yng Nghymru wedi recriwtio i'r treial [REMAP-CAP](#), sydd â'r nod o nodi triniaethau a allai fod o fudd i bobl sy'n ddifrifol sâl â COVID-19 ac sydd angen gofal dwys. Mae'r treial wedi dangos bod dau gyffur ar gyfer arthritis gwynegol (tocilizumab a sarilumab) yn lleihau risg o farwolaeth o bron 10%.

Yn y gymuned, nod astudiaeth [PRINCIPLE](#) yw dod o hyd i driniaethau ar gyfer pobl sydd â haint COVID-19 ysgafnach

ac nad oes angen iddynt fynd i'r ysbty. Gall y rheini sydd â symptomau coronafeirws, neu haint COVID-19 wedi'i gadarnhau, fod yn rhan o'r treial hwn o unrhyw le yng Nghymru. Yn fwyaf diweddar, darganfuwyd nad yw dau wrthfotig sy'n cael eu rhagnodi'n gyffredin, sef azithromycin a doxycycline, o unrhyw fudd o gwbl i gleifion sy'n hŷn na 50 oed ac sy'n cael eu trin ar gyfer COVID-19 gartref, sydd yr un mor bwysig i roi tystiolaeth werthfawr i glinigwyr i ddarparu sail ar gyfer eu triniaeth o gleifion â COVID-19 yn y gymuned.

Mae'r holl ymchwil fyd-eang a chenedlaethol yn cael ei dwyn ynghyd yng [Nghanolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru](#) sy'n ganolfan newydd i ddadansoddi'r effaith a'r defnydd o dystiolaeth seiliedig ar ymchwil i fynd i'r afael â heriau newydd o ganlyniad i'r pandemig byd-eang.

Sefydlwyd y ganolfan £3 miliwn, [a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020](#) ac sydd dan arweiniad [yr Athro Adrian Edwards](#), gan Lywodraeth Cymru i ddod â darganfyddiadau ymchwil DU-eang a rhyngwladol ynghyd i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau tymor hir y pandemig yn ogystal ag ymchwilio i heriau fel rheoli haint a chadw pellter cymdeithasol, canlyniadau ynysu ac effeithiau'r amhariad economaidd ar iechyd.


Meddai Gwawr Evans, fu'n cymryd rhan yn nhreial brechlyn COVID-19 Rhydychen/AstraZeneca:

"Gwnes i wirfoddoli i gymryd rhan yn y treial hwn yn bennaf gan mai'r brechlyn hwn, ac eraill, ydy'r pethau a fydd yn dod â ni allan o'r pandemig.

"Mae'n gwneud i mi deimlo'n falch fy mod i wedi cymryd rhan yn y treial hwn felly pan dwi'n clywed amdano yn y newyddion, dwi'n teimlo fel bod gen i gysylltiad personol ag ef. Mae'n rhywbeth dwi wedi bod yn rhan ohono ac, mewn ffordd fach, wedi cyfrannu ato.

"Mi fyddai ein byd mor wahanol heb ymchwil; mae'n hanfodol i bob un ohonon ni. Mae'n wych gweld [...] bod cymaint o bobl yn teimlo'r un fath am ymchwil ac mi fyddwn i'n eu hannog i ofyn i'w meddyg neu eu nyrs sut y gallan nhw gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol."

Ewch i [wefan Bod yn Rhan o Ymchwil](#) i gael gwybod mwy am sut y gallwch chi fod yn rhan o ymchwil COVID-19 ac ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol hanfodol arall yng Nghymru.




I gael rhagor o wybodaeth am yr holl astudiaethau ymchwil cysylltiedig sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, neu sydd wrthi'n cael eu sefydlu, yng Nghymru, ewch i [ymchwil COVID-19 yng Nghymru](#).

EIN CANOLFANNAU YMCHWIL MEWN NIFEROEDD



Cyllid uniongyrchol
wedi'i ddyfarnu




Samplau meinwe
wedi'u cyflwyno



Gwerth grantiau
a enillwyd*



Swyddi wedi'u
hariannu



Nifer y grantiau
a enillwyd*



Swyddi wedi'u creu



Cyhoeddiadau ymchwil

*Grantiau a enillwyd gan ymgeiswyr arweiniol o'r Canolfannau

EIN CYNLLUNIAU ARIANNU

Cyfanswm **£6.83m**

3 Ysgoloriaeth PhD Gofal Cymdeithasol

£196,256

4 Cymrodoriaeth Ymchwil Gofal Cymdeithasol

£1,331,321

3 Cymrodoriaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru /
Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd

£2,022,245

9 Cynllun Ariannu Ymchwil: Grantiau Ymchwil Iechyd

£1,907,026

4 Gwobr Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd
(RfPPB) Cymru

£874,823

6 Gwobr Amser Ymchwil y GIG (NHS RTA)

£498,878

CYMORTH A CHYFLENWI 2020/21



43,118


Cyfranogwyr a recriwtwyd i astudiaethau ymchwil o ansawdd uchel



528

Astudiaethau ymchwil anfasnachol gweithredol o ansawdd uchel

76%



o'r astudiaethau wedi recriwtio eu cyfranogwr cyntaf o fewn 30 diwrnod i weithredu'r safle (masnachol)


88%



o'r astudiaethau wedi recriwtio eu cyfranogwr cyntaf o fewn 30 diwrnod i weithredu'r safle (anfasnachol)



Astudiaethau gweithredol a noddir yn fasnachol



Astudiaethau agored ar draws mwy nag un sefydliad (% o'r holl astudiaethau)



fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi'u recriwtio fesul blwyddyn (cyfartaledd 5 mlynedd)

EIN GRANTIAU A DYFARNIADAU YMCHWIL

Mae cynlluniau grantiau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n ariannu prosiectau sy'n berthnasol o ran y cyhoedd, arfer a pholisi ac ar yr un pryd yn cefnogi datblygu ymchwilwyr ledled Cymru.

Arweiniodd galwadau ariannu fu'n rhedeg rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 at Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu 29 o ddyfarniadau newydd a oedd yn werth £6.83m gyda'i gilydd.

Roedd hyn yn cynnwys Grantiau Ymchwil Iechyd, prosiectau Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) Cymru, Cymrodoriaethau Gofal Cymdeithasol, Ysgoloriaethau PhD Gofal Cymdeithasol ynghyd â Dyfarniadau Amser Ymchwil Glinigol y GIG (NHS RTAs). Y disgwyl yw y bydd pob dyfarniad yn weithredol erbyn 1 Hydref 2021. Roedd yn bleser gennym ariannu tri Chymrodoriaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru/ y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, dau ohonynt yn Gymrodoriaethau uwch a ddyfarnwyd i Victoria Shepherd a Claudia Metzler-Baddeley, y ddwy o Brifysgol Caerdydd.

CYMRODORIAETHAU YMCHWIL GOFAL CYMDEITHASOL

- **Dr Helen Hodges, Prifysgol Caerdydd**
Cysylltu data arolwg a data gweinyddol i wella'r ddealltwriaeth o ymddygiadau peryglus a ffactorau diogelu posibl mewn plant sy'n derbyn gofal cymdeithasol: Astudiaeth ddichonoldeb
- **Dr Simon Read, Prifysgol Abertawe**
Pennu'r Arfer Gofal Cymdeithasol Ataliol Gorau yng Nghyd-destunau Pobl Hŷn Sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Gartref a'r Rheini Sy'n Byw â Dementia
- **Dr Phillip Smith, Prifysgol Caerdydd**
Gadael uned cyfeirio disgyblion: Archwilio cyfnodau pontio a chyrchfannau ôl-16 pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ledled Cymru
- **Dr Sarah Thompson, Prifysgol Caerdydd**
Sut allwn ni wella profiadau a deilliannau plant awtistig mewn gofal? Astudiaeth dulliau cymysg o anghenion, gwasanaethau ac arfer da

YMCHWIL ER BUDD CLEIFION A'R CYHOEDD (RFPPB) CYMRU

- **Ceri Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**
Effeithiolrwydd glinigol a chost-effeithiolrwydd rhaglen ymarfer corff cynnar ar boen cronig ac ansawdd bywyd cysylltiedig ag iechyd yn sgil trawma corfforol i wal y frest: Hap-dreial paralel, wedi'i reoli (treial ELECT2)
- **Kate Button, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
Hap-astudiaeth ddichonoldeb wedi'i rheoli o ymyrraeth ffisiotherapi hunan-reoli digidol cyhyrsgerbydol TRAK ar gyfer unigolion â phoen cyhyrsgerbydol
- **Simon Noble, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Astudiaeth Datgelu Thrombosis Gwythiennau Dwfn mewn Ysbytai ymhlith Cleifion Canser sy'n Derbyn Gofal Lliniarol (HIDDEN 2)
- **Dr Gareth Roberts, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Protocol ar gyfer gwerthuso Elw Realidd a Chymdeithasol ar Fuddsoddiad o ddefnyddio Deilliannau yn Ôl y Cleifion eu Hunain mewn Rhaglen Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth

CYNLLUN ARIANNU YMCHWIL: GRANTIAU YMCHWIL IECHYD

- **Mark Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**
Defnyddio dysgu peirianyddol i ragweld ymateb ac esblygiad is-glonau yn ystod cemotherapi
- **Rachel Errington, Prifysgol Caerdydd**
Oncoleg Fanwl: Dull newydd o fynd ati i fodelu niwroblastoma a thriniaeth benodol wrth i'r abnormaleddau genetig isorweddol newid yn ystod triniaeth claf
- **Richard Fry, Prifysgol Abertawe**
Mapio gwasanaethau lle ceir prin unrhyw achosion rhag cyfyngiadau symud COVID-19
- **Lim Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru**
Epidemioleg ac effaith sgil-heintiau bacteriol ac ymwrthedd gwrthficrobaidd ar Ofal Dwys yn ystod y pandemig SARS-CoV-2.

- **Mari Jones, Prifysgol Abertawe**
Dysgu o'r ffordd y rheolwyd y pandemig yn genedlaethol: Effaith economaidd ac iechyd COVID-19 ar ofal a chymorth i bobl dros 65 oed
- **Julie Peconi, Prifysgol Abertawe**
Diogel rhag haul: Gwerthusiad dulliau cymysg o bolisiau diogelwch yr haul mewn ysgolion cynradd yng Nghymru
- **William Pickrell, Prifysgol Abertawe**
Effaith COVID-19 ar gydraddoldeb iechyd a marwolaethau ymhlith pobl ag epilepsi yng Nghymru
- **Rebecca Thomas, Prifysgol Abertawe**
Effaith rhoi'r gorau i sgrinio ar gyfer clefyd llygaid diabetig ar bobl â diabetes yn ystod y pandemig COVID-19
- **Joanna Zabkiewicz, Prifysgol Caerdydd**
Ymchwilio i ffitrwydd celloedd imiwn i gadarnhau ymateb cleifion i therapi Celloedd-T Derbynnydd Antigenau Cimerig (CAR)

DYFARNIADAU AMSER YMCHWIL Y GIG

- **Rachel Abbott,**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- **Sarah Gwynne,**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- **Sadie Jones,**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- **Jane Nicholls,**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- **Jonathan Philips,**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- **Summia Zaher,**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

YSGOLORIAETHAU PHD GOFAL CYMDEITHASOL

- **Mark Davies / Carolyn Wallace, Prifysgol De Cymru**
Datblygu Pecyn Hyfforddi ar gyfer Gweithwyr yng Nghymru gan ddefnyddio Dull Realidd o Weithredu
- **Rachel Rahman, Prifysgol Aberystwyth**
Sut y mae byw mewn ardaloedd gwledig yn cyfrannu at deimlo'n unig mewn cymunedau gwledig amrywiol, a'r rôl y mae cymunedau'n ei chwarae wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol
- **Fiona Wood, Prifysgol Caerdydd**
Cael preswylwyr cartrefi gofal i ymgysylltu ag ymchwil: nodi rhwystrau a hwyluswyr a datblygu ymyrraeth i gefnogi preswylwyr i wneud penderfyniadau a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer ymchwil (Astudiaeth ENGAGE)

CYMRODORIAETH YMCHWIL IECHYD A GOFAL CYMRU/ NIHR

Yn cefnogi unigolion ar eu llwybr i ddod yn arweinwyr ymchwil yn y dyfodol. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n gyfrifol am ariannu a rheoli ceisiadau llwyddiannus i Raglen Cymrodoriaethau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR).

CYMRODORIAETH:

- **Leigh Sanyaolu, Prifysgol Caerdydd**
Gwellar defnydd o wrthfotigau proffylactig ar gyfer heintiau rheolaidd yn y llwybr wrinol (IMPART): astudiaeth dulliau cymysg i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth a datblygu cymhorthyn penderfynu

CYMRODORIAETH UWCH:

- **Victoria Shepherd, Prifysgol Caerdydd**
Penderfynu am ymchwil i eraill: astudiaeth ddichonoldeb a threal o effeithiolrwydd ymyrraeth cymorth penderfynu newydd ar gyfer ymgynghoreion a chynrychiolwyr cyfreithiol oedolion sy'n methu â chydysynio drostynt eu hunain (CONSULT)
- **Claudia Metzler-Baddeley, Prifysgol Caerdydd**
Hap-astudiaeth beilot datblygu a dichonoldeb wedi'i rheoli o HD-DRUM – ap hyfforddi newydd dilyniant sgiliau echddygol ar gyfer pobl â chlefyd Huntington

MEITHRIN GALLU YMCHWIL YNG NGHYMRU

Nod Cydweithrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil (RCBC) Cymru yw cynyddu gallu a chpasiti ymchwil ymhlith nyrsys, bydwragedd, fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, a chyfrannu at ddatblygu rolau academaidd clinigol. Fel rhan o'r alwad ddiweddaraf, cydariaennodd Ymchwil Fferyllol y DU Gymrodoriaeth Newydd i Ymchwil a ddechreuodd ym mis Ebrill 2021.

Mae RCBCymru yn cynnwys adrannau/ ysgolion nyrsys a gweithwyr perthynol i iechyd chwe prifysgol yng Nghymru (sef prifysgolion De Cymru, Abertawe, Caerdydd, Metropolitan Caerdydd, Glyndŵr Wrexham a Bangor) ac mae'n ymgysylltu â'r GIG, y diwydiant, elusennau a llunwyr polisi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cymrodorion wedi dechrau prosiectau sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys dadansoddi data dilyniant genomau i wella cynrychiadau diagnostig, systemau sy'n cefnogi teuluoedd sy'n clywed sydd â phlant b/Byddar, a gofal diwedd oes i bobl â dementia.

Mae Cymuned Ysgolheigion RCBCymru yn enghraifft o'r ethos cydweithredol. Mae hon yn creu amgylchedd cynhwysol, colegaid a magwrol, gan ddarparu mentoriaid a dosbarthiadau meistr mewn dulliau ymchwil ac arweinyddiaeth ymchwil. I gael rhagor o wybodaeth a manylion am alwadau ariannu, ewch i www.rcbcwales.org.uk/cy a Twitter [@RCBCWales](https://twitter.com/RCBCWales).

YMCHWIL GOFAL CYMDEITHASOL

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi parhau i fuddsoddi mewn mentrau sy'n cryfhau capasiti a gallu ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn ogystal â chefnogi gofal cymdeithasol trwy ddatblygiadau seilwaith eraill, mae adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer y mentrau isod:

Mae'r **Fenter Meithrin Gallu Ymchwil** yn annog pobl i ymuno â maes ymchwil academaidd sy'n cwmpasu pob agwedd ar ofal cymdeithasol ac yn cefnogi'r rheini sydd eisoes yn gweithio yn y maes i ddatblygu eu gyrfaoedd. Mae gan y rhaglen dri chyfnod allweddol, sef mynd ag ymarferwyr trwy astudiaeth PhD, ymchwil ôl-ddoethurrol/ penodiad academaidd cyntaf ac yna gwaith fel arweinydd ymchwil.

Dull o gynhyrchu ar y cyd yw **Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth – DEEP**, gan ddefnyddio gwahanol fathau o wybodaeth a thystiolaeth a'u gwneud yn ystyrlon ac yn effeithiol mewn lleoliadau gofal

cymdeithasol, gan gynnwys datblygu'r gweithlu. Nod y fenter hon yw dwyn sylw at effaith y dull hwn o weithredu a gwreiddio DEEP ym mholisiau a rhaglenni gwaith sefydliadau sy'n bartneriaid.

Rhaglen lledaenu ac ymgysylltu Cymru-gyfan yw **ExChange**, sy'n dod ag ymchwilwyr blaenllaw ac ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth at ei gilydd i rannu arbenigedd, tystiolaeth ymchwil a phrofiadau o ofal. Mae ExChange yn darparu hyfforddiant o ansawdd uchel yn rhad ac am ddim i gefnogi datblygiad parhaus gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol.

Mae **Galluogi Ymchwil Mewn Cartrefi Gofal - ENRICH** yn cefnogi twf ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal ledled Cymru, trwy ddatblygu a hwyluso rhwydwaith o gartrefi gofal sy'n 'barod ar gyfer ymchwil', hybu cyfnewid syniadau a gwybodaeth am ymchwil a meithrin gwaith cyd-greu ymchwil sy'n berthnasol i faterion sy'n dod i'r fei ar hyn o bryd yn y sector cartrefi gofal.

EIN CANOLFANNAU YMCHWIL A'U HEFFAITH

Dechreuwyd cyfnod ariannu newydd ym mis Ebrill 2020, gyda seilwaith datblygu ymchwil wedi'i adfywio gan ddod â phosibiliadau cyffrous ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Daeth hwn ar ddechrau'r pandemig, a gyflwynodd set newydd o heriau i'r gymuned ymchwil. Er gwaethaf hyn, mae'r canolfannau ymchwil wedi ymateb yn bositif i'r heriau hyn, gan ddangos cryfder a chydnerthedd wrth fynd i'r afael â COVID-19 ac, ar yr un pryd, dod o hyd i ffyrdd i barhau i gyflenwi gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID, gan arwain at 147 o grantiau llwyddiannus dan arweiniad ein canolfannau, a ddaeth i gyfanswm o £37m.

Yn ystod y cyfnod ariannu newydd, gwelir buddsoddiadau wedi'u hadnewyddu ar gyfer meysydd cryf sydd eisoes yn bodoli o ran iechyd meddwl (y Ganolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol), gofal sylfaenol (Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys), canser a chlefyd anghyffredin (Canolfan Ymchwil Canser Cymru; Banc Canser Cymru; Parc Geneteg Cymru; Uned Cyweirio'r Ymennydd a Niwrotherapiwteg Mewngreuanol), clefyd yr arenau a diabetes (Uned Ymchwil Arenol Cymru; Grŵp Ymchwil Diabetes Abertawe), gwybodeg iechyd (Banc Data Diogel ar gyfer Cysylltiadau Gwybodaeth Ddiennw), iechyd y boblogaeth (y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth), heneiddio a dementia (y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia), economeg iechyd (Economeg Iechyd a Gofal Cymru) ac unedau treialon clinigol (Uned Dreialon Abertawe; Sefydliad Hap-dreialon Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru; y Ganolfan Ymchwil Treialon), yn ogystal â chroesawu'r grwpiau newydd a ganlyn:

Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd Cyhoeddus (DECIPHer)

Dan arweiniad yr Athro Simon Murphy a gyda'i sail ym Mhrifysgol Caerdydd, mae DECIPHer yn dwyn arbenigwyr at ei gilydd o amrywiaeth o ddisgyblaethau i fynd i'r afael â materion iechyd cyhoeddus fel diet a maeth, gweithgarwch corfforol, tybaco, alcohol a chyffuriau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu a gwerthuso ymyriadau aml-lefel a fydd yn cael effaith ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc.

Eleni, dechreuodd DECIPHer, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol (NCMH) a'r Banc Data Diogel ar gyfer Cysylltiadau Gwybodaeth Ddiennw (SAIL), weithio ar y Ganolfan Wolfson £10m newydd ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc (Prifysgol Caerdydd), sef canolfan ymchwil ryngddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar leihau gorbryder ac iselder ymhlith pobl ifanc. Hefyd, gwnaethant ymuno â Chell Cyngori Technegol Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant ac Addysg i gefnogi gwaith datblygu a gwerthuso polisi COVID-19, gan ddwyn sylw at berthnasedd cynyddol eu gwaith wrth ymateb i heriau iechyd y boblogaeth sy'n dod i'r fei yng Nghymru a thu hwnt.

Partneriaeth Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (Partneriaeth-CASCADE)

Dan arweiniad Donald Forrester, mae'r bartneriaeth yn dod â'r Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, y Ganolfan Gwyddoniaeth Datblygiad Dynol yn yr Ysgol Seicoleg, y Ganolfan Ymchwil Treialon (Prifysgol Caerdydd) a'r Banc Data Diogel ar gyfer Cysylltiadau Gwybodaeth Ddiennw (SAIL) (Prifysgol Abertawe) at ei gilydd. Nod y bartneriaeth yw gwella llesiant, diogelwch

a hawliau plant a'u teuluoedd. Mae a wnelo â phob agwedd ar ymatebion y gymuned i angen cymdeithasol plant a theuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gwasanaethau plant mewn angen, amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal a mabwysiadu.

Un o uchafbwyntiau eu blwyddyn gyntaf o gyllid oedd hap-dreial wedi'i reoli yn edrych ar weithwyr cymdeithasol mewn ysgolion – yr hap-dreial wedi'i reoli mwyaf erioed ym maes gofal cymdeithasol plant yn y DU (treial gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion [SWIS]).

Hefyd, rydym wedi gwneud dau fuddsoddiad llai eleni i ddatblygu capasiti mewn meysydd arbenigol lle y gall Cymru arwain y ffordd.

Rhwydwaith Ymchwilio i Gamblo, ei Werthuso a'i Drin (Rhwydwaith GREAT) Cymru

Dan arweiniad yr Athro Simon Dymond a gyda'i sail ym Mhrifysgol Abertawe, sefydlwyd Rhwydwaith GREAT ym mis Ebrill 2020 a bydd yn datblygu capasiti a gallu ymchwil ar gyfer atal a lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru trwy gydymgyssylltu â pharthau cysylltiedig, fel gwasanaethau caethiwed ac iechyd a llesiant.

Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (WSSPR)

Dan arweiniad yr Athro Carolyn Wallace a gyda'i sail ym Mhrifysgol De Cymru a Phrifysgol Caerdydd, sefydlwyd WSSPR ym mis Ebrill 2020 a'i nod yw meithrin capasiti ymchwil a sylfaen dystiolaeth hanfodol ar gyfer gwerthuso rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (Canolfan PRIME Cymru) sy'n lletya WSSPR.

I gael rhagor o wybodaeth am bob un o'n canolfannau ymchwil, cliciwch yma.

CYNNWYS Y CYHOEDD

Pam ein bod ni'n annog mwy o bobl i ddarganfod eu rôl mewn ymchwil

Trwy gydol y pandemig, rydyn ni wedi gweld pobl o bob oedran, cefndir a rhan o Gymru'n cynnig eu hunain i helpu â'r ymdrech ymchwil i COVID-19. Boed yn un o'r treialon brechlynnau ledled y DU neu'n nifer o astudiaethau ymchwil i ddod o hyd i driniaethau ar gyfer y salwch, mae'r synnwyr o gael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad a'r synnwyr eu bod yn gwneud gwahaniaeth i'r achos ehangach wedi bod yn amlwg.

Ar yr un pryd, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfle i'r gymuned ymchwil ddydsu am y pethau sy'n ysgogi pobl i wirfoddoli a sut i fanteisio ar ddealltwriaeth gynyddol y cyhoedd o bwysigrwydd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Er mai cyfranogwr yn y treialon eu hunain oedd yr ymwneud â COVID-19 yn bennaf, mae gennyn ni gyfle nawr i wneud yn siŵr bod mwy o bobl yn dod i ystyried gwaith cynnwys y cyhoedd ym mhroses gyfan dylunio a chyflenwi ymchwil yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol.

Ar 26ain Ionawr 2021, cyhoeddodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gynllun gweithredu sy'n manylu ar y camau gweithredu sylweddol ar gyfer cynyddu gwaith cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil trwy fynd i'r afael â rhwystrau ac ymgysylltu ehangach â chymunedau mwy amrywiol. Datblygwyd [Gwaith Ymchwil ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Darganfod Eich Rôl](#) mewn partneriaeth â'r cyhoedd a'r gymuned ymchwil yn ystod cyfres o bump digwyddiad Cymuned Arfer yn 2019 ac mae'n cynnwys saith maes ffocws.

Mae'r maes ffocws cyntaf yn amlinellu'r angen am rwydwaith mwy ystyrion yng Nghymru ar gyfer trafodaethau ar gynnwys y cyhoedd lle y gall pobl rannu arfer da a chael cefnogaeth. I'r perwyl hwn, datblygwyd Fforwm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer Cymru a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2021, yn cynnwys bron 100 o bobl.

Mae gwaith ymhell ar y gweill ar y blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu y dylid rhoi sylw di-oed iddyn nhw trwy weithgorau bach, gan gynnwys goresgyn rhwystrau gweinyddol rhag talu cyfranogwyr cyhoeddus a datblygu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd ystyrion i adeiladu ar y proffil y mae ymchwil wedi'i ennill dros y 12 mis diwethaf.

Mae aelodau'r cyhoedd yn hanfodol i'r broses ymchwil. Nod ein strategaeth Darganfod Eich Rôl, sydd wedi'i halinio â mentrau ymgysylltu â'r cyhoedd DU-eang fel ymgyrch Bod yn Rhan o Ymchwil, yw annog mwy o bobl o ledled Cymru i helpu i siapio pob astudiaeth ymchwil sy'n cyflenwi gofal gwell ar gyfer y dyfodol.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n gweithio ar sut i gyrraedd mwy o aelodau'r cyhoedd sydd â phrofiad ymarferol mewn meysydd rydyn ni'n ymchwilio iddyn nhw. Byddwn ni hefyd yn cefnogi ein cymuned ymchwil a gweithwyr proffesiynol cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd trwy rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda, a sicrhau bod cyfraniadau cleifion a'r cyhoedd yn cael eu cydnabod am y gwahaniaeth y maen nhw'n ei wneud i wella gofal i bawb.

Sicrhewch y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd a digwyddiadau cynnwys y cyhoedd yng Nghymru trwy [gofrestru i dderbyn ein e-bost wythnosol 'Cynnwys pobl o bwys'](#).

Eisiau dysgu mwy am gynnwys y cyhoedd?

Dysgwch am [sut y gallwch chi helpu ag ymchwil](#). Yn gweithio ym maes ymchwil? [Darllenwch am ein cymorth a chanllawiau](#).



EDRYCH YMLAEN: CYNLLUNIAU AR GYFER DYFODOL YMCHWIL IECHYD A GOFAL

Mae yna lawer y dylem ei ddysgu o'r pandemig COVID-19, ynglŷn a sut rydym yn trefnu, yn ariannu, yn cyflenwi ac yn defnyddio ymchwil iechyd a gofal mewn ffordd sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn.

Rydym wedi cael mwy o ymgysylltu ag ymchwil – yn amrywio o bobl gyffredin yn cymryd rhan mewn treialon clinigol o frechlynnau, i bobl yn defnyddio canlyniadau ymchwil i siapio'u hymddygiadau a'u gweithrediadau personol eu hunain fel nad ydynt mor debygol o ddod i gysylltiad â chlefyd a'i drosglwyddo – nag erioed o'r blaen. Mae ymchwil wedi cael sylw yn y byd gwleidyddol, y cyfryngau ac mewn sgysiau bob dydd yn fwy nag erioed o'r blaen. Rhaid i ni beidio â gwastraffu'r cyfle i adeiladu ar y sylfaen hon.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru nawr yn troi i gynllunio ar gyfer y dyfodol – a chanolbwynt ein hymdrechion yn y flwyddyn nesaf fydd cefnogi a datblygu'r capasiti a'r gallu ar gyfer ymchwil yng Nghymru – gan sicrhau bod ymchwil o'r ansawdd uchaf; ei bod yn rhyngwladol gystadleuol o ran ei gwyddoniaeth a'i pherthnasedd; ei bod yn cael ei defnyddio i helpu i siapio gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru a dod â gwelliannau i gleifion a chymunedau.

Byddwn yn cyhoeddi cynllun tair blynedd gyda chostau wedi'u pennu ar gyfer y dyfodol yn cwmpasu 2022 i 2025 ac yn gosod ein hagenda ar gyfer gweithredu. Ond gallwn ni fod yn glir yn barod am nifer o flaenoriaethau allweddol.



Cymerodd Sudipta Bandyopadhyay ran mewn Treialon Siarad a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Treialon

Yn gyntaf, byddwn yn chwarae ein rhan lawn mewn datblygiadau ledled y DU, a byddwn yn fentrus ac yn gadarn wrth geisio buddsoddiad llawn a theg yng Nghymru oddi wrth arianwyr a mentrau DU-eang.

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gosod gweledigaeth ar gyfer dyfodol cyflenwi ymchwil glinigol. Mae 'Achub a Gwella Bywydau: Dyfodol Cyflenwi Ymchwil Clinigol yn y DU' yn manylu ar ein cyd-ddyhead i greu amgylchedd ymchwil glinigol o'r radd flaenaf yn y DU gyda chyflenwi ymchwil wedi'i wreiddio'n llwyr o fewn y GIG.

Mae Gweledigaeth ar gyfer Gwyddorau Bywyd Llywodraeth y DU yn manylu ar ddyheadau'r DU i fod yn archbŵer ym maes gwyddorau bywyd – a'r angen am i lywodraeth a diwydiant fuddsoddi mewn rhai parthau allweddol fel dementia, brechlynnau canser ac iechyd meddwl. Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU, sef The R&D Roadmap, yn darparu cyd-destun allweddol ar gyfer y datblygiadau hyn, ac mae'n cydnabod dosbarthiad hynod anghyfartal adnoddau Ymchwil a Datblygu ledled y DU a'r angen am "godi'r gwastad".

Yn ail, byddwn yn sicrhau bod ein rhaglenni ymchwil yn rhoi sylw i'r Rhaglen Lywodraethu y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi a'r wyth o flaenoriaethau Gweinidogol y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u gosod.

Mae'r rhain yn cydnabod ein bod dal yng nghanol ymateb i'r pandemig, ond mae'n rhaid i ni hefyd ailfywiogi gwasanaethau a'r adferiad ar yr un pryd. Mae'r blaenoriaethau'n canolbwyntio ar wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd gyda symudiad cytunedig tuag at lesiant, deilliannau a sicrhau bod mynediad yn deg. Bydd ymchwil yn chwarae rhan hanfodol mewn cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Yn drydydd, byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar lwybrau a chyfleoedd i gael gyrfa ym maes ymchwil yng Nghymru, ac yn dechrau rhoi ei argymhellion ar waith.

Mae hyn yn golygu buddsoddi i sicrhau bod prifysgolion a byrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru'n gallu denu'r ymchwilwyr mwyaf peniog a gorau i ddilyn gyrfaedd yma, a'u bod yn cael y cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos â Gofal Cymdeithasol Cymru ac awdurdodau lleol i hwyluso gwella cyfleoedd a chefnogaeth ar gyfer gyrfaedd ymchwil ym maes gofal cymdeithasol. Bydd y rhaglenni hyn yn cynhyrchu arweinwyr ymchwil y dyfodol yng Nghymru a ledled y DU.

Yn bedwerydd, byddwn yn adeiladu ar waith Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru a'u gwaith ar ddarparu gwerthusiadau cyflym o arloesi mewn gwasanaethau i greu partneriaeth gynaleddig, gynhyrchiol rhwng ymchwilwyr ar y naill law a llunwyr polisi ac arweinwyr y system iechyd a gofal ar y llaw arall.

Ein nod yw cydgynhyrchu ymchwil wych, a fydd yn targedu gwir anghenion ac yn darparu sail ar gyfer cynlluniau a phenderfyniadau ynglŷn ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n amser cyffrous i fod yn gweithio ym maes ymchwil iechyd a gofal – ac rydym yn edrych ymlaen at weld yr ymdrechion hyn yn helpu i feithrin cymuned ymchwil fywiog ac ymledol sy'n drylwyr ac sydd hefyd yn berthnasol i anghenion pobl Cymru.

Yr Athro Kieran Walshe

“Canolbwynt ein hymdrechion yn y flwyddyn nesaf fydd cefnogi a datblygu'r capasiti a'r gallu ar gyfer ymchwil yng Nghymru.”



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



+44 (0) 2920 230 457



healthandcareresearch@wales.nhs.uk



www.ymchwiliachydgofalcymru.org



@YmchwilCymru

Ymchwil heddiw; gofal yfory.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government